**Dyddiad: 5 Gorffennaf 2000**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl: Gofal Iechyd Mewn Carchardai**

## Diben

Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad ar gynnydd a wnaed i wella gofal iechyd mewn carchardai.

## Crynodeb

Bu’r swyddogion yn ymwneud llawer â gwaith yr Uned Bolisi a’r Tasglu a grëwyd i gynorthwyo i wella’r cyswllt rhwng y Gwasanaeth Gofal Iechyd mewn Carchardai a’r NHS. Y nod yw codi safonau gofal iechyd mewn carchardai. Bu Dr Felicity Harvey, pennaeth newydd yr Uned Bolisi, yn ymweld â Pharc Cathays ar 12 Mai 2000 i gwrdd â swyddogion o PCH a Gweithwyr Proffesiynol ym maes Iechyd. Mae hi a’i thîm yn awyddus i gwrdd â Jane Hutt AC, a bydd dyddiad addas yn cael ei bennu ar gyfer hyn. Bydd y cydweithredu agos hwn yn parhau wrth i ni fwrw ymlaen â’r prosiect yng Nghymru.

## Amseru

Prosiect tymor canol i’r tymor hir yw hwn ond bydd yn arwain at gyflawni rhai newidiadau gwerth eu gwneud yn gymharol fuan.

## Cefndir

Crëwyd yr Uned Bolisi ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Carchardai/ Uned Bolisi Gweithrediaeth yr NHS ar gyfer Iechyd mewn Carchardai a’r Tasglu ar y cyd ar gyfer Gofal Iechyd mewn Carchardai ar 29 Mawrth 1999. Roedd yr amseru’n lletchwith gan fod y Cynulliad Cenedlaethol wrthi’n cael ei sefydlu, ond ar ôl y problemau cyfathrebu a gafwyd ar y cychwyn, rhoddwyd cydnabyddiaeth i’r sefyllfa yng Nghymru yn y Datganiad i’r Wasg a gyhoeddwyd i ddatgan sefydlu’r ddau gorff. Rhoddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd sêl ei fendith ar y bwriad i gydweithio’n agos. Mae cydweithio ardderchog wedi bod ers hynny ar lefel y swyddogion.

Mae’r Uned Bolisi’n gyfrifol am gwrdd ag anghenion Gweinidogion y Swyddfa Gartref a Gweinidogion yr Adran Iechyd mewn perthynas â briffio a chyngor polisi. Mae’r Tasglu’n gweithio gyda charchardai a sefydliadau iechyd lleol ac yn eu cefnogi i arwain a rheoli gwelliannau’n lleol.

Y Swyddfa Gartref sy’n gyfrifol am garchardai a gwasanaethau gofal iechyd mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr, ond gan y Cynulliad Cenedlaethol y mae’r cyfrifoldeb dros agweddau’r NHS ar y gwaith hwn yng Nghymru. Mae’r holl grwpiau’n deall y trefniant hwn yn iawn, ac mae’n gweithio’n dda. Fodd bynnag, gallai achosi anawsterau mewn trefniadau cyllido yng Nghymru; trafodir hyn ymhellach yn yr adran ar "Oblygiadau Ariannol" isod.

Lledaenwyd gwybodaeth ynghylch y fenter hon o eiddo’r Llywodraeth trwy gyfres o seminarau lle cafwyd cyflwyniadau gan y Gwasanaeth Carchardai, y Tasglu a’r Uned Bolisi ac eraill â diddordeb. Cafodd y seminar ar gyfer Cymru ei chynnal yn Stadiwm y Mileniwm ar 16 Chwefror eleni. Roedd y digwyddiad yn llwyddiannus iawn, a chafwyd cynrychiolaeth aelodau hn o’r Gwasanaeth Carchardai, yr NHS a’r sector gwirfoddol er bod pawb a oedd yn bresennol yn cydnabod mai cam cyntaf yn unig oedd hwn tuag at sefydlu cysylltiadau ag eraill a sefydlu graddfa’r broblem. Rydym yn ystyried ar hyn o bryd sut i fwrw ymlaen â hyn. Nid oes gan y 4 carchar yng Nghymru (Caerdydd, Abertawe, Brynbuga/ Prescoed a’r Parc, Pen-y-Bont ar Ogwr) drefniadau gofal iechyd sylfaenol unffurf. Mae gan Abertawe a Brynbuga/Prescoed drefniadau contract tebyg i’w gilydd â phractisau meddygon teulu lleol, mae gan Gaerdydd staff clinigol ar y safle, a darperir gwasanaethau i’r Parc gan Ymddiriedolaeth Bro Morgannwg. Bydd yn rhaid i’n hymagwedd tuag at weld y sefyllfa’n gwella gydnabod y gwahaniaethau lleol hyn, ceisio cynnal a lledaenu arfer da a sicrhau bod gweithio agos gwirioneddol rhwng yr NHS a’r Gwasanaeth Gofal Iechyd mewn Carchardai. Bydd yn rhaid ystyried hyn oll yn ofalus ac ymgynghori’n agos â’r rhai sydd â diddordeb. Ein nod yw cynhyrchu cynllun drafft dros y 6 mis nesaf.

Mae angen i ni hefyd ystyried y ffordd orau o gael y sector gwirfoddol i chwarae rhan yn y gwaith hwn. A rhoi materion iechyd cyffredinol o’r neilltu, mae salwch meddwl a chamdrin sylweddau’n chwarae rhan sylweddol mewn gwaeledd iechyd ymysg carcharorion. Mae angen i ni harneisio arbenigedd y sector gwirfoddol yn y meysydd hyn.

**Goblygiadau Ariannol**

Yn Lloegr, bydd y Swyddfa Gartref a’r Adran Iechyd yn cyfrannu at ariannu unrhyw gynllun gwella. Bydd yr Adran Iechyd yn cael hyd i’w cyfraniad hwy o’r adnoddau sydd ganddynt eisoes, fel na fydd unrhyw gyllid ôl-ddilynol i Gymru. Yng Nghymru, dylai bod arian y Swyddfa Gartref ar gael fel yn Lloegr ond bydd yn rhaid i ni gael hyd i unrhyw gyfraniad gan y Cynulliad Cenedlaethol o adnoddau sy’n bodoli’n barod. Rydym yn edrych ar bob cyllideb sydd ar gael a allai fod yn berthnasol i ofal iechyd mewn carchardai. Bydd adroddiad ar gynnydd a wnaed yn hyn o beth yn cael ei wneud pan gyflwynir y cynllun gwella drafft. Mae Is-adran Rheoli Cyllid ac Is-Adran Cynllunio Ariannol yr NHS wedi gweld y cyflwyniad hwn ac wedi’i gymeradwyo.

**Cydymffurfio**

Gall y Cynulliad, o dan Adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ystyried a gwneud cyflwyniadau priodol ynghylch unrhyw fater sy’n effeithio ar Gymru. Dirprwywyd y per i ystyried gweithredu o’r fath i’r Ysgrifennydd Cynulliad. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb yn codi. Mae Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad wedi gweld y cyflwyniad hwn, ac mae’n fodlon â’r agweddau sy’n ymwneud â chydymffurfiaeth.